



# Adolygiad Ysgolion Ardal

## Ysgol Uwchradd y Fflint

---

## **Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?**

Nod strategaeth Llywodraeth Cymru i drawsnewid addysg yw moderneiddio a symleiddio addysg. Drwy'r Rhaglen Trawsnewid, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu system addysg a hyfforddiant sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu o safon uchel; sy'n ymateb i anghenion pob dysgwr a chyflogwr; sy'n sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau er budd dysgwyr ac i fynd i'r afael ag anfantais.

Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn rhaid i ni ymateb i anghenion lleol sy'n newid mewn ffordd arloesol. Mae hyn yn golygu cysylltiadau llawer mwy clos rhwng y gwahanol ganghennau dysgu fel y bydd yr adnoddau gorau posibl – athrawon, adeiladau ac offer ar gael i bob dysgwr.

Ein nod yw sicrhau darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 oed sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac sy'n ateb gofynion Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yn y Mesur Dysgu a Sgiliau. Rydym yn ceisio datblygu darpariaeth sy'n sicrhau ystod eang o opsiynau o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ac sy'n cael ei chyflwyno mewn modd cynaliadwy ac effeithlon. Ein nod yw sicrhau trefniadau bugeiliol o ansawdd uchel i bawb. Mae hyn yn galw am gynllunio, cydlynu a chefnogaeth dda ar gyfer y sawl sy'n pontio i addysg bellach, addysg uwch a byd gwaith.

Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad mewn Hyb Chweched Dosbarth newydd ar gyfer Glannau Dyfrdwy a Gogledd Sir y Fflint a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a Choleg Cambria.

Mae holl Benaethiaid ac arweinwyr colegau Sir y Fflint wedi cyfrannu at ddatblygu Achos Amlinellol Strategol ar drefnu addysg pobl ifanc 14 i 19 oed yn Sir Fflint yn y dyfodol. Cafodd y strategaeth hon wedyn ei chefnogi gan y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig, fodd bynnag, eich bod chwithau hefyd yn cael cyfle i gyfrannu at sicrhau bod addysg yn ardal y Fflint yn creu'r cyfleoedd a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr.

## **YMGYNGHORIAD**

Cafodd proses ymgynghori ei chomisiynu gan Gynghorwyr yn yr ardaloedd canlynol: Treffynnon, Cei Connah/Queensferry a Bwcle, a oedd yn cynnwys newid ystod oedran yr Ysgolion Uwchradd o 11-18 i 11-16.

Diben y digwyddiadau oedd rhoi cyfle i bobl ystyried yr opsiynau a oedd yn cynnwys newid ystod oedran yr ysgolion yn yr ardaloedd hynny o 11-18 i fod yn ysgolion ystod oedran 11-16.

Ymrwymodd Cynghorwyr i gynnal ymgynghoriadau eraill ag ysgolion yn y Fflint a Saltney. Er y trefnwyd hyn ar gyfer tymor yr Haf 2013, cafodd yr ymgynghoriadau eu gohirio ar gais ysgolion Fflint.

Gellir ymateb i'r ymgynghoriadau hyn tan ddiwedd Ionawr 2014. Bydd yr ymatebion yn cael eu cyflwyno i aelodau Cabinet y Cyngor i'w sylw cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

## **DISGRIFIAD O'R TREFNIADAU PRESENNOL**

Dylid nodi nad yw ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau. Gellir cyflwyno'r rhain yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol yn unig.

Ar hyn o bryd mae dau sefydliad yn darparu addysg ôl-16 oed wedi en lleoli yn nhref y Fflint:

Ysgol Uwchradd y Fflint ac  
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn.

Mae Ysgol Uwchradd y Fflint wedi ateb gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau drwy fod yn rhan o'r consortiwm ôl-16 oed gydag ysgolion lleol eraill. Yn ôl y trefniant hwn, mae disgyblion yn teithio i wahanol ddarparwyr ar gyfer y pynciau a ddewiswyd ganddynt.

Gwnaethpwyd trefniadau cydweithredu anffurfiol ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn i ddarparu addysg ôl-16 oed yn llawer mwy diweddar. Mae'r myfyrwyr blwyddyn 13 yn parhau i fanteisio ar y cynnig drwy'r trefniadau consortiwm a fydd yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Mae'r ysgol yn ateb gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau drwy'r cydweithrediad hwn. Mae myfyrwyr yn cerdded o un ysgol i'r llall i ddilyn y cyrsiau o'u dewis, sef pellter o ychydig dros 0.5 milltir.

## Y CYNIGION

Mae'r cynnig i newid y ddarpariaeth wedi'i amlinellu yn yr opsiwn cyntaf, sef cadw'r ddarpariaeth 11-16 oed yn Ysgol Uwchradd y Fflint, ond cau a symud y chweched dosbarth (darpariaeth 11-16 oed) i Hyb Ôl-16 oed Cei Connah. Bydd y ddarpariaeth hon yn ganolfan newydd i wasanaethu ysgolion yng Ngogledd y Sir. Ymgynghorwyd eisoes ar gynigion i symud y ddarpariaeth ôl-16 oed yn Ysgol Uwchradd Treffynnon, Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers yn Queensferry, ac mae'r cynigion wedi'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Gweinidog Addysg ar gyfer penderfyniad. Bydd yr Hyb newydd yn cael ei adeiladu ar dir ger Ysgol Uwchradd Cei Connah, Golftyn Lane a Safle Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria, a dylai fod yn barod i'w feddiannu ym mis Medi 2016.

Nod trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16 oed yw gwneud y ddarpariaeth yn gadarnach o safbwynt niferoedd myfyrwyr a chyllid sy'n gysylltiedig â nifer y myfyrwyr a nifer y cyrsiau gwahanol a ddarperir gan yr ysgol.

Dywed Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint y bydd chweched dosbarth yn hyfyw mewn termau ariannol ac o ran y cwricwlwm dim ond os bydd mwy na 120 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y dylid cynyddu'r nifer hwn i 150 er mwyn sicrhau bod arian digonol ar gael i gynnal y ddarpariaeth ôl-16 oed. Mae Ysgol Uwchradd y Fflint wedi cyflwyno ei hachos ei hun i ddangos ei bod o'r farn bod y chweched dosbarth yn hyfyw yn ariannol, ond bydd y trefniadau cyllido a'r gyllideb fydd ar gael yn newid o fis Medi 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gostyngiad yn y swm o arian a fydd ar gael i ysgolion ddarparu addysg ôl-16. Mae'n amlwg bod hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y darpariaethau llai o faint.

Nid yw'r ffigurau presennol a'r rhagolygon ar gyfer nifer y myfyrwyr yn y chweched dosbarth a baratowyd gan yr Awdurdod ac a welir yn Nhabl 1 yn awgrymu y bydd y lleiafswm o 120 o fyfyrwyr chweched dosbarth y cytunwyd arno yn strategaeth moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint yn cael ei gyflawni.

Bydd crynhoi'r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn Hyb yng Nghei Connah yn golygu y bydd cwricwlwm llawn ar gael mewn un ganolfan, a fydd yn cynnig dewis eang o bynciau i fyfyrwyr i gyd ar un safle, gyda mantais y cyfleusterau newydd mwyaf modern ar gyfer pynciau academiaidd a galwedigaethol. Mae cyfleusterau galwedigaethol eang eisoes wedi'u sefydlu yng nghampws Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria.

Byddai trefniadau teithio i'r Hyb ôl-16 oed newydd yng Nghei Connah yn cydymffurfio â pholisi trafndiaeth ôl-16 oed Sir y Fflint, sy'n darparu trafndiaeth am ddim i unrhyw fyfyrwr sy'n teithio mwy na 3 milltir i'r ddarpariaeth.

Byddai'r cynnig yn effeithio ar Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn gyfagos, ac mae trefniadau wedi'u gwneud â hi'n ddiweddar i gydweithredu'n anffurfiol i gyflwyno elfennau o'r ddarpariaeth ôl-16 oed nad yw'n fforddiadwy yn Ysgol Uwchradd y Fflint. Yr ail opsiwn yw datblygiad parhaus y trefniant hwn er mwyn ateb gofynion y cwricwlwm. Ar hyn o bryd, mae llawer mwy o fyfyrwyr Ysgol Uwchradd y Fflint yn dilyn cyrsiau yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn na sydd o fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn sy'n dilyn cyrsiau yn Ysgol Uwchradd y Fflint.

Manylion yr ysgolion a effeithir: -

- Ysgol Uwchradd Gymunedol y Fflint, Ysgol Maes Hyfryd, y Fflint
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Richard Gwyn
- Ysgol Uwchradd Arbennig Maes Hyfryd, Fifth Avenue, y Fflint

Tabl 1: poblogaeth yr ysgolion:-

<u>Ysgol</u>	<u>Nifer posibl</u>	<u>Graddfa Cyflwr</u>	<u>Nifer y Myfyrwyr</u>										
				4 blynedd flaenorol				Pres- ennol	Rhagolwg				
(Pob un yn gyfrwng Saesneg)				09/10	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19
<b>Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn</b>	1000	A	CYFANSWM	939	939	950	946	944	929*	931	940	946	981
			6 <sup>ed</sup> Dosbarth	127	130	122	102	131	124*	125	129	124	119
<b>Ysgol Uwchradd y Fflint – data'r ALI</b>	797	B	CYFANSWM	701	694	661	677	727	699*	652	647	626	627
			6 <sup>ed</sup> Dosbarth	79	89	78	70	92	75*	79	74	82	79
			Cyfanswm os trosglwyddir i'r Hyb:	-	-	-	-	-	-	-	573	544	548
<b>Rhagolygon 6ed Dosbarth a luniwyd gan Ysgol Uwchradd y Fflint</b>								92	109	118	122	125	
<b>Ysgol Arbennig Maes Hyfryd</b>		A	Ôl-16 oed*	41	41	44	44	53	-	-	-	-	

- \* Yn seiliedig ar ddisgyblion ôl-16 oed sydd â Datganiad. Rhagolygon heb eu cynnal gan fod poblogaeth yr ysgol yn ddibynnol ar y broses Ddatganiadau.
- \*\* Rhagolygon yn seiliedig ar ddata PLASC 2013 a phoblogaeth ysgolion ers 2009.

## DEILLIANNAU A MANTEISION POSIBL

Yn Arolygiad diweddaraf Estyn (Ionawr 2012) barnwyd bod deilliannau a gyflawn wyd ar gyfer, a lles y myfyrwyr yn dda yn Ysgol Uwchradd y Fflint. Barnwyd hefyd fod safon y ddarpariaeth o ran addysgu, gofal a chymorth yn dda. Dywedwyd bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ardderchog.

Mae adroddiad arolygu Estyn yn cyfeirio at y trefniadau Consortiwm â dosbarthiadau chwech lleol eraill. Mae'r trefniadau chweched dosbarth presennol ar gyfer Blwyddyn 12 yn awr yn wahanol yn dilyn sefydlu'r trefniadau cydweithredu anffurfiol ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Mae'r myfyrwyr blwyddyn 13 presennol yn dal i ddod o dan y trefniadau consortiwm.

Rhestrir deilliannau ar gyfer myfyrwyr ôl-16 o Ysgol Uwchradd y Fflint isod, a ddarparwyd gan yr ysgol: -

	% graddau A*-C
Ysgol Uwchradd y Fflint	61.2
Y cyfartaledd ar gyfer ALI Sir y Fflint	74.3

Data Ysgol Uwchradd y Fflint 8/2013.

Wrth gwrs, nid yw deilliannau'r trefniadau cydweithredu newydd ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn hysbys ar hyn o bryd.


Mae'r awdurdod o'r farn y byddai trosglwyddo'r ddarpariaeth chweched dosbarth i'r Hyb ôl-16 oed yn cael effaith bositif ar y profiadau i fyfyrwyr, drwy ddarparu cwricwlwm ehangach wedi'i gydleoli mewn cyfleuster arbenigol. Mae ethos, datblygiad a darpariaeth yr Hyb yn cael eu sefydlu drwy bartneriaeth, gan gynnwys profiad o ddarpariaeth ardderchog/rhagorol.



Os bydd Cynghorwyr yn penderfynu symud ymlaen gyda'r opsiwn a ffefrir, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi pan fydd unrhyw unigolyn yn cael datgan gwrthwynebiad yn ystod cyfnod o fis ar ôl ei gyhoeddi.

Bydd pob gwrthwynebiad a wneir yn ystod y cam hwn yn cael ei gyflwyno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt wneud penderfyniad.

## Faint o amser fydd y broses hon yn ei chymryd?



## Opsiynau'r Ymgynghoriad – Ysgol Uwchradd y Fflint

### YR OPSIWN A FFEFRIR

1. **Cadw darpariaeth 11-16 oed yn Ysgol Uwchradd y Fflint. Defnyddio unrhyw le dros ben i ddibenion addysg, hamdden neu ddiwylliannol eraill. Byddai'r ddarpariaeth ôl-16 oed yn yr Hyb newydd yng Nghei Connah ar ôl Medi 2016.**
2. **Cadw darpariaeth 11-19 oed yn Ysgol Uwchradd y Fflint a gwneud trefniadau cydweithredu ffurfiol ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn i gadw'r ddarpariaeth ôl-16 oed rhwng y ddwy ysgol.**

Yn opsiwn 1, byddai'r ddarpariaeth 16-19 oed bresennol yn cael ei diddymu'n raddol a'i chau i fyfyrwyr newydd ym Medi 2016.

Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau dilyniant o ran addysgu ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes wedi cychwyn ar gwrs ôl-16 oed yn yr ysgol.

Byddai trafnidiaeth i'r ddarpariaeth ôl-16 ddynodedig yn cael ei darparu'n unol â pholisi Trafnidiaeth Ysgol Sir y Fflint, sydd am ddim i fyfyrwyr sy'n byw mwy na thair milltir i ffwrdd o'r ddarpariaeth. (Mae pellter o 3.2 milltir rhwng Ysgol Uwchradd y Fflint a safle Hyb Glannau Dyfrdwy.)

Mae'r Hyb newydd yng Nghei Connah yn rhan o'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae hon yn ganolfan gwerth £14.5m sy'n cael ei hadeiladu ar y cyd â Choleg Cambria. Bydd yr Hyb yn cael ei adeiladu'n bwrpasol ar gyfer darpariaeth ôl-16 oed a bydd yn cynnwys yr adnoddau mwyaf modern a'r amgylchedd dysgu gorau posibl. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu £3.6m at y prosiect, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu gan Goleg Cambria a Llywodraeth Cymru fel rhan o'i Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif i ddod â dosbarthiadau chwech bychain at ei gilydd mewn canolfannau modern, cynaliadwy a safonol.

Byddai'r ddarpariaeth ôl-16 oed yn y dyfodol wedi'i chanoli yn yr Hyb Ôl-16 oed yng Nghei Connah. Byddai myfyrwyr sydd wedi'u hintegreiddio i ddarpariaeth ôl-16 oed yn Ysgol Uwchradd y Fflint o Ysgol Maes Hyfryd yn cael eu hintegreiddio yn yr un modd i'r ddarpariaeth yn yr Hyb newydd arfaethedig yng Nghei Connah.

Mae cynaliadwyedd tymor canolig i hir Opsiwn 2 yn ddibynnol ar fynediad cyfartal yn y ddwy ysgol, h.y. cyfran y myfyrwyr o Ysgol Uwchradd y Fflint sy'n dilyn cyrsiau yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a'r gyfran o Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn sy'n dilyn cyrsiau yn Ysgol Uwchradd y Fflint.

Mae hefyd yn dibynnu ar ddewisiadau pobl ifanc o ran cyrchfan pan fydd yr Hyb yn agor ym mis Medi 2016. Gallai methiant i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer newidiadau yn y ddarpariaeth adael Ysgol Uwchradd y Fflint mewn sefyllfa fregus bryd hynny.

Mae rhai dysgwyr o ardal y Fflint eisoes yn cael addysg ôl-16 oed yng Nghaer, Glannau Dyfrdwy neu ddosbarthiadau chwech eraill yn yr ardal. Mae trefniadau partneriaeth eisoes ar waith â darparwyr eraill gan gynnwys y trefniadau newydd ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn i sicrhau bod modd cynnig yr isafswm o 30 o bynciau i fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 12 a 13.

Byddai Opsiwn 1 yn galluogi Ysgol Uwchradd y Fflint i ganolbwyntio adnoddau ar y grŵp oedran 11-16. Er bod yr ysgol wedi cael ac yn parhau i gael buddsoddiad, byddai angen ail fodelu pellach ar yr ysgol i ddarparu ardal ysgol 11-16 oed a rhestru unrhyw ofod nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion addysg, hamdden a diwylliannol eraill. Byddai cyllid cyfalaf Cyngor Sir y Fflint a cheisiadau yn y dyfodol am gyllid Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod adeiladau a chyfleusterau'n cael eu huwchraddio i sicrhau ysgol ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn unol â dyheadau Cyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru.

Mae'r sail resymegol ar gyfer darpariaeth ôl-16 oed yn cyd-fynd â'r agenda a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol, i ddarparu addysg ôl-16 oed mewn canolfannau mwy o ran maint a mwy cydnerth.

Bydd y defnydd hyblyg o adeiladau yn Ysgol Uwchradd y Fflint yn golygu pe bai cynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol, byddai lle ar eu cyfer yn Ysgol Uwchradd y Fflint. Mae tystiolaeth o'r sefyllfa hon yn dod i'r amlwg yn yr ardal gyfagos.

Pe bai'r opsiwn 11-16 oed yn cael ei fabwysiadu, byddai Ysgol Uwchradd y Fflint hefyd yn bartner llawn yn nhrefn lywodraethu a threfnu addysg ôl-16 oed yng Nghanolfan/Hyb Chweched Dosbarth newydd Gogledd Sir y Fflint gan sicrhau pontio esmwyth i fyfyrwyr.

Pe bai opsiwn 1 yn cael ei gymeradwyo, byddai Ysgol Uwchradd y Fflint yn parhau i gynnis darpariaeth 11-16 oed fywiog a llwyddiannus a byddai'n cadw'i rôl bwysig fel canolbwynt i'r gymuned leol.

Mae gan Ysgol Uwchradd y Fflint 70 (Medi 2013) o lefydd gwag (8.78%). Mae lle i 797 o ddisgyblion yn yr ysgol, gyda chyfanswm o 727 ar y gofrestr. Mae rhagolygon yn dangos gostyngiad yn y niferoedd hyd 2017/18 pan ragwelir y bydd nifer y disgyblion yn 626, ffigur sy'n seiliedig ar y niferoedd sydd wedi'u derbyn i'r ysgol dros gyfnod o bum mlynedd. Gwelwyd cynnydd yn niferoedd blwyddyn 12 ym Medi 2013; fodd bynnag, nid yw cynnydd mewn un flwyddyn yn golygu y bydd y twf mewn niferoedd yn cael ei gynnal. Rhagwelir adferiad araf yn y niferoedd a dderbynnir i flwyddyn saith yn yr ysgol ar ôl 2017/18.

Mae'r nifer yn y chweched dosbarth (blynyddoedd 12 a 13) yn 92 ar hyn o bryd (Medi 2013). Mae rhagolygon (yn seiliedig ar ddata PLASC Ionawr 2013) a phatrwm cyrchfannau blwyddyn 11 dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos na fydd hwn yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae ffigurau a gynhyrchwyd gan yr ysgol, sy'n seiliedig ar ddata un flwyddyn yn dangos ffigur uwch na rhagolwg yr awdurdod lleol o 82 yn 2017/18.

Mae data'r ysgol yn dangos bod cyfartaledd o 36% (2010-2013) o'r myfyrwyr ym mlwyddyn 11 yn aros ymlaen i'r chweched dosbarth. Mae'r ffigur hwn ar gyfer Medi 2013 wedi dangos cynnydd i 49%. Ar gyfartaledd mae tua 50% o'r bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 11 yn Ysgol Uwchradd y Fflint yn mynd i Goleg Addysg Bellach neu sefydliadau eraill ar gyfer eu haddysg neu hyfforddiant ôl-16 oed. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y patrwm hwn o ddilyniant mewn cynllunio ar gyfer pontio dysgwyr, trefniadau bugeiliol ac adeiladu ymdeimlad parhaus o gymuned.

Mae'n bosibl y bydd y cydweithredu ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn gallu golygu rhai arbedion, ond ni fydd yn cael effaith yn y tymor canolig a hir ar yr arian a fydd ar gael i'r ysgol. Rhagwelir y bydd gostyngiadau mewn cyllid ôl-16 oed yn parhau. Y gôst presennol o'r darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Y Fflint yw £3,111 y.f.

Bwriedir i'r opsiwn a ffeirir ar gyfer yr Ymgynghoriad roi sylw i'r materion sy'n gysylltiedig â niferoedd yn y chweched dosbarth, deilliannau ar gyfer myfyrwyr, mynediad i gwricwlwm eang a gwytnwch ariannol hirdymor.

Gallwch ddefnyddio un o nifer o ffyrdd i rannu eich barn â ni. Gallwch:

- ofyn cwestiynau a rhoi eich barn yn y cyfarfodydd hyn
- cwblhau holiadur ar-lein yn [www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)
- cwblhau holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6DN; neu
- anfon eich ymatebion ar bapur at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6DN

**Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2014.**

### Cyfarfodydd Ymgynghori

Leoliad	Gwahoddedigion	Dyddiad	Amser	Math o Gyfarfod
Ysgol Uwchradd y Fflint	<i>Athrawon, Staff a Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Fflint</i>	<b>Llun, 16 Rhagfyr 2013</b>	<i>4.30 pm</i>	<i>Cyflwyniad a ddilynir gan sesiwn holi ac ateb</i>
Ysgol Uwchradd y Fflint	<i>Rhieni Ysgol Uwchradd y Fflint</i>	<b>Llun, 16 Rhagfyr 2013</b>	<i>6.00 pm</i>	<i>Cyflwyniad a ddilynir gan sesiwn holi ac ateb</i>

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad  
(Sylwer na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfrif fel  
gwrthwynebiad ffurfiol)  
Adolygiad Ysgolion Ardal**

**Cyn i chi ddechrau – os hoffech chi lenwi'r ffurflen hon ar-lein ewch i:  
[www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview](http://www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview)**

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac mewn dogfennau eraill sydd ar gael ar wefan y Cyngor, dywedwch wrthym beth yw eich barn am yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor yn eich ardal chi.

**Pa mor gryf ydych chi'n cytuno ag Opsiwn 1 yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Uwchradd y Fflint?**

- Cytuno'n Gryf                       Tueddol o Gytuno    Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Tueddol o Anghytuno            Anghytuno'n Gryf

**Pa mor gryf ydych chi'n cytuno ag Opsiwn 2 yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Uwchradd y Fflint?**

- Cytuno'n Gryf                       Tueddol o Gytuno    Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Tueddol o Anghytuno            Anghytuno'n Gryf

**Dywedwch wrthym pam yr ydych yn teimlo fel hyn. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw opsiwn arall yr hoffech ei gynnig.**

---



---

**Amdanoch chi:**

Er mwyn ein helpu i ddeall beth yw barn gwahanol grwpiau o bobl, dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi eich hun:

Rhowch eich manylion cyswllt isod (*yn anffodus, ni allwn ystyried ymatebion oni bai bod manylion cyswllt, gan gynnwys cod post llawn wedi'u rhoi*)

Enw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Cod post: \_\_\_\_\_

**A ydych chi yn:**

- Rhiant/Gofalwr                       Athro                       Staff Cynorthwyol
- Llywodraethwr                       Arall

**Enw'r Ysgol:**

---

- Hoffwn gael gwybod am unrhyw hysbysiad statudol yn y dyfodol mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn.